EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION PUMED CYFARFOD AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 07 Gorffennaf 2022

LLEOLIAD: Microsoft Teams (cyfarfod rhithwir)

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Sue Walker
David Williams	Berni Tyler
Rosemary Lait	Jane Setchfield
Anne Pitman	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Clare Jones
Eithne Hughes	Nicola Stubbins

Ymddiheuriadau:

Steve Drowley	
Gwawr Taylor	
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Jess Tippins	Rheolwr Cyfathrebu (yn arsylwi)
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)

1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd Angela Jardine, (*Cadeirydd*) yr aelodau a'r swyddogion i bumed cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Steve Drowley, Gwawr Taylor ac Elizabeth Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*).

1.3 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i aelodau fod y briff gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a ddylai fod wedi'i gynnal cyn y cyfarfod ond a ohiriwyd, wedi'i aildrefnu i'w gynnal cyn cyfarfod nesaf y Cyngor ar 17 Tachwedd 2022. Atgoffodd y Cyngor y byddai'r sesiwn gynllunio flynyddol hefyd yn digwydd ar ôl y cyfarfod hwn ac, felly, gofynnodd i aelodau sicrhau eu bod ar gael am y diwrnod cyfan. Y gobaith oedd y byddai'r Cyngor yn cyfarfod wyneb yn wyneb; byddai gwybodaeth am drefniadau'r diwrnod yn cael eu cyfleu, maes o law.

1.4 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr roi diweddariad i'r Cyngor ar ddau fater byw sy'n ymwneud â CGA:

- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018: Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau am gefndir y mater hwn. Ar ôl i'r Cadeirydd uwchgyfeirio pryderon y Cyngor ym mis Ebrill 2022, roedd hi, y Prif Weithredwr a Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) wedi cyfarfod ag Owain Lloyd (*Cyfarwyddwr Ysgolion*) a swyddogion o adran gyllid Llywodraeth Cymru ar 8 Mehefin ac ar 1 Gorffennaf 2022 am drafodaethau pellach. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd CGA wedi ceisio cyngor cyfreithiol ac roedd trafodaethau ar y mater yn parhau.
- Papur safle CGA ar gyflenwi: Yn dilyn cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr ac Owain Lloyd, cytunwyd y byddai swyddogion CGA yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar fireinio papur safle CGA ar gyflenwi. Roedd y gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd a byddai aelodau'n cael gwybod y diweddaraf am y dyddiad cyhoeddi diwygiedig.

2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Datganodd Kelly Edwards fuddiant yn eitemau agenda CGA 39/22 a CGA 40/22 fel un o gyflogeion Colegau Cymru.

2.2 Ni chafwyd rhagor o ddatganiadau o fuddiant.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i aelodau ei bod wedi cynrychioli CGA yn Seremoni Raddio'r Brifysgol Agored ar 27 Mai 2022. Nododd fod y cyn Weinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi derbyn gradd er anrhydedd gan y Brifysgol Agored yn y seremoni.

3.2 Rhoddodd wybod y byddai'n mynd i Wobrau Addysgu Proffesiynol Cymru ar 10 Gorffennaf 2022.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 17 Mawrth 2022. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Cael hysbysiad am unrhyw faterion y mae aelodau eisiau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda

5.1 Ni chafwyd hysbysiad am unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 17 Mai 2022

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt na fyddid yn ymdrin â hwy yn nes ymlaen ar yr agenda.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 17 Mai 2022

7.1 Yn absenoldeb Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion a dywedodd nad oedd unrhyw faterion yn codi i dynnu sylw'r aelodau atynt na fyddid yn ymdrin â hwy yn nes ymlaen ar yr agenda.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

8. Adroddiad gan y Prif Weithredwr CGA 20/22

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion na fyddid yn ymdrin â hwy yn rhywle arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau gan yr aelodau.

8.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff pedwar, dywedodd fod llythyr y Cynnig Grant cytunedig terfynol wedi'i lofnodi ar 3 Mai 2022 i CGA ymgymryd â gwaith penodol ar ran Llywodraeth Cymru. Llofnodwyd adendwm yn gysylltiedig â Gwaith Sefydlu ychwanegol 2021-22 ar 27 Mai 2022.

8.3 Fel y datganwyd ym mharagraff saith, roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chofrestru posibl y gweithlu plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Cyfwelwyd â CGA fel rhan o'r adolygiad ym mis Mawrth 2022 ac roedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai ym mis Ebrill 2022. Byddai aelodau'n parhau i gael eu diweddaru ar ddatblygiadau yn y maes hwn.

8.4 Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Cyngor fod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi gwahodd CGA i ddarparu tystiolaeth / gwybodaeth lafar i ymchwiliad i addysg cyfrwng Cymraeg ar 6 Gorffennaf 2022. Darparodd CGA wybodaeth ysgrifenedig ymlaen llaw, yn ôl y gofyn.

8.5 Gan gyfeirio aelodau at baragraffau 14-16, amlygodd y Prif Weithredwr waith CGA ynghylch staff cymorth dysgu. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth mewn Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gyda'r Prif Weithredwr yn aelod o Grŵp Dysgu Proffesiynol newydd ei sefydlu, yn cyfarfod â staff cymorth a swyddogion Undeb yn rheolaidd, a bwriedir cyhoeddi papur safle ar staff cymorth dysgu yn 2023. Yn benodol, nododd yr aelodau'r ymwneud hwn yn gadarnhaol a diolchont i swyddogion am eu gwaith blaengar yn y maes hwn.

8.6 Roedd nifer digwyddiadau CGA a gynhaliwyd wedi'i hamlinellu ym mharagraff 29. Nododd y Prif Weithredwr fod y rhain wedi bod yn boblogaidd ac wedi cael ymateb cadarnhaol, ac roedd swyddogion yn parhau i weithio ar ddatblygu digwyddiadau difyr at y dyfodol.

8.7 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad.

9. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2021-22 CGA 21/22

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a oedd yn amlinellu perfformiad gweithredol a sefyllfa ariannol CGA ar gyfer 2021-22. Cyflwynodd Lisa Winstone *(Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) a Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, yn y drefn honno.

9.2 Adroddodd Lisa Winstone fod Archwilio Cymru wedi cwblhau eu harchwiliad allanol ac wedi rhoi barn archwilio ddiamod i CGA. Roedd angen tri mân addasiad archwilio, a oedd wedi bod yn syml i'w hymgorffori. Cyflwynwyd y Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin ac, ar sail eu hargymhelliad, fe'u cyflwynwyd i'r Cyngor eu cymeradwyo.

9.3 Adroddodd y cyfrifon warged diwedd blwyddyn o £466,000, a oedd yn uwch na'r disgwyl. Nodwyd bod hyn wedi'i briodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys cynnydd mewn incwm ffioedd cofrestru yn sgil cyllidebu gofalus oherwydd effaith anhysbys y pandemig ac effaith barhaus Covid o ran gweithio o bell / cyfarfodydd / gwrandawiadau / ymgysylltiadau / teithio a chynhaliaeth.

9.4 Cadarnhaodd Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, wrth aelodau bod y Pwyllgor wedi dadansoddi'r Cyfrifon yn drylwyr yn eu cyfarfod a nodont lwyddiant cael y farn archwilio ddiamod. Diolchodd i Lisa Winstone ac i swyddogion am y gwaith a wnaed.

9.5 Yna, cyflwynodd Bethan Stacey yr Adroddiad Blynyddol, a amlinellodd gynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion perfformiad yng Nghynllun Gweithredol a dogfennau ategol eraill y Cyngor. Nododd fod yr Adroddiad wedi'i gyflwyno eisoes i'r Pwyllgor Gweithredol ei adolygu.

9.6 O ran presenoldeb aelodau'r Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau, awgrymodd un aelod y dylai'r adroddiad gynnwys colofn ychwanegol i adrodd hanes absenoliaeth wedi'i awdurdodi. Roedd yr aelod wedi codi hyn yn flaenorol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 30 Mehefin 2022. Cefnogodd aelodau'r awgrym hwn yn gyffredinol. Daeth y Cadeirydd i'r casgliad y byddai angen trafodaethau pellach i sefydlu pa absenoldebau y gellid categoreiddio eu bod wedi'u hawdurdodi mewn senario o'r fath. Hefyd, cyfeiriodd at Reolau Sefydlog CGA, a amlinellodd y weithdrefn ar gyfer absenoldebau parhaus heb esboniad rhesymol a, hefyd, calendr cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau a ddosbarthwyd i aelodau, gan roi tua blwyddyn/dwy flynedd o rybudd ymlaen llaw o gyfarfodydd.

9.7 Roedd aelodau'n fodlon cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22 a diolchont i swyddogion am y gwaith a gwblhawyd.

10. Adroddiad cydraddoldeb blynyddol drafft 2021-22 ac adroddiad monitro drafft Safonau'r Gymraeg 2021-22 CGA 22/22

10.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiadau hyn, yr oedd y Pwyllgor Gweithredol wedi'u trafod yn flaenorol a'u hargymell i'r Cyngor eu cymeradwyo. Nododd fod y ddau adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion craidd yn y meysydd hyn.

10.2 I ymateb i ymholiad gan aelod ar amrywio'r Cyngor, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod aelodau'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru drwy'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ac, felly, nad oedd hyn dan reolaeth CGA. Nododd y byddai ef a'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo'r broses

benodiadau ymhlith rhwydweithiau CGA, a fyddai'n cynnwys hyrwyddo amrywiaeth eang o ymgeiswyr.

10.3 Ni chafwyd cwestiynau pellach ac roedd aelodau'n fodlon cymeradwyo'r ddau adroddiad.

11. Adroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer Drafft CGA 23/22

11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a gofynnodd i aelodau ystyried y drafft yn atodiad A a chymeradwyo ei gyhoeddi.

11.2 I ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr fod gwaith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor o hyd o ddiddordeb mawr i'r cyfryngau ac i'r cyhoedd. Nododd fod casglu a chyhoeddi'r data mewn Adroddiad Blynyddol yn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth gywir a bod gwybodaeth gywir yn cael ei rhannu.

11.3 Gan ymateb i ymholiad aelod am y cynnydd yn nifer y cofrestreion a oedd wedi atgyfeirio'u hunain, esboniodd y Prif Weithredwr fod gwaith ymgysylltu parhaus CGA yn debygol o fod wedi cyfrannu at fwy o hunanymwybyddiaeth ymhlith eu cofrestreion er, nododd fod y ffigur hwn yn parhau'n isel iawn ar y cyfan.

11.4 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer i'w gyhoeddi.

12. Adroddiad Cynnydd ar SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 24/22

12.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad cynnydd hwn, a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â Chofrestru a gweinyddu dyfarniad Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

12.2 Gan gyfeirio at baragraff dau, adroddodd fod y gwaith o gasglu ffioedd cofrestru a dadgofrestru wedyn yr ymarferwyr hynny a ddewisodd beidio â chynnal eu cofrestriad ar gyfer 2022-23 wedi dod i ben. Amlygodd fod y Gofrestr wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y staff cymorth dysgu.

12.3 Fel yr adroddwyd ym mharagraffau 8 – 10, daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y categorïau cofrestru newydd i CGA i ben ar 24 Mai 2022. Roedd swyddogion yn disgwyl ymgynghoriad pellach ar y ddeddfwriaeth statudol sy'n ofynnol i ychwanegu'r categorïau cofrestru yn nes ymlaen yn 2022, gan ddisgwyl eu gweithredu ar 1 Ebrill 2023.

12.4 Nododd ymhellach fod y Cyngor wedi cael nifer bach o ymholiadau gan unigolion o Wcráin ynghylch cydnabod SAC. Roedd cymheiriaid CGA yn yr Alban ac Iwerddon wedi bod yn delio â materion o'r fath ers tro ac, felly, roedd swyddogion yn cydgysylltu â chydweithwyr, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol.

12.5 Nid oedd gan y Cyngor unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

13. Diweddaru / newid cronfa ddata CGA CGA 25/22

13.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a amlinellodd y camau gweithredu hyd yn hyn a'r gwaith pellach sy'n ofynnol i ddiweddaru neu newid cronfa ddata Cofrestru CGA.

Atgoffodd aelodau am gronfa wrth gefn y gronfa ddata, sef £800,000, a neilltuwyd at y diben hwn.

13.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff pump, roedd canlyniad y prosiect darganfod ar fin dod i law ac roedd swyddogion yn gobeithio adolygu'r wybodaeth a phenderfynu sut i symud ymlaen erbyn diwedd Gorffennaf 2022.

13.3 I ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr fod y gronfa ddata bresennol yn ddigonol ar gyfer gwaith y Cyngor yn y tymor canolig, ond na fyddai'n addas at y diben yn y tymor hir. Sicrhaodd ef y Cyngor fod y gweithredu arfaethedig ar y trywydd cywir i sicrhau na fyddai unrhyw darfu ar ddarparu'r gwasanaeth.

13.4 Gan ymateb i ymholiad gan aelod am ymglymiad y Cyngor â chefnogi'r prosiect, nododd y Prif Weithredwr fod uwch swyddogion CGA yn cydweithio'n agos ar yr agwedd weithredol ar y diweddaru / newid a byddai aelodau yn cael gwybodaeth lawn am y mater trwy gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau.

13.5 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon nodi cynnydd yn y maes hwn.

14. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 26/22

14.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig a'r drafft diwygiedig yn yr atodiad o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol i'r Cyngor ei drafod yn dilyn ei adolygiad disgwyliedig.

14.2 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 20, roedd angen recriwtio aelodau panel ychwanegol i gynnal y nifer a oedd yn ofynnol ar gyfer gwaith achosion y Cyngor. Dechreuwyd recriwtio aelodau cofrestredig newydd ym mis Mai 2022 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 4 Gorffennaf 2022. Byddai recriwtio aelodau lleyg yn dechrau cyn hir yn yr hydref.

14.3 Adroddodd y Prif Weithredwr fod cyfarfod blynyddol â gweithwyr achos undebau wedi'i gynnal ar 21 Mehefin 2022 fel y nodwyd ym mharagraff 22, a chafodd swyddogion adborth cadarnhaol ynghylch parhau â chynnal gwrandawiadau'n rhithwir. Daeth cynrychiolwyr i'r casgliad mai dyma'r model yr oedd eu haelodau'n ei ffafrio, ond gwerthfawrogont fod opsiwn gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn cael ei gynnig hefyd.

14.4 Gan gyfeirio aelodau at atodiad D, cyflwynodd y Prif Weithredwr ddrafft diwygiedig y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn dilyn yr adolygiad 3 blynedd rheolaidd ohono. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cynhaliwyd adolygiad 'ysgafn', o ystyried yr adolygiad helaeth a gynhaliwyd yn flaenorol a'r adborth cadarnhaol ar y fersiwn bresennol. Cyflwynwyd y drafft i'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2022 ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo i'w gyhoeddi ym mis Medi 2022. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw gwestiynau a chymeradwyodd y drafft i'w gyhoeddi.

15. Drafft CGA – Canllaw i ymddygiad ac ymarfer da ar gyfer arweinwyr CGA 27/22

15.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn ac atgoffodd yr aelodau fod y drafft wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth yn sgil argymhelliad gan y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio. Gofynnodd y Cyngor am i ddiwygiadau pellach gael eu

gwneud i'r drafft. Roedd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio wedi trafod y drafft eto yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2022 ac wedi argymell fod y drafft diwygiedig bellach yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei gymeradwyo.

15.2 Nododd un aelod fod y diwygiadau a wnaed yn adlewyrchu'r trafodaethau a gafodd y Cyngor yn flaenorol a bod y naws a'r iaith a ddefnyddiwyd yn y ddogfen yn fwy addas.

15.3 Roedd aelodau'n fodlon cymeradwyo'r drafft i'w gyhoeddi.

16. Adolygu'r Gofrestr Risg CGA 28/22

16.1 Cyflwynodd Lisa Winstone y papur hwn a chyflwynodd Gofrestr Risg bresennol CGA. Atgoffodd yr aelodau fod yr uwch reolwyr yn adolygu'r Gofrestr Risg yn chwarterol, fod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei thrafod ym mhob cyfarfod a'i bod yn cael ei chyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor ei chymeradwyo.

16.2 Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â Covid oherwydd roedd y Gofrestr Risg eisoes yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon o'r fath ac, felly, roedd awydd risg y Cyngor yn parhau i fod yn wrth-risg.

16.3 Daeth aelodau i'r casgliad fod yr asesiad awydd risg yn wrth-risg, nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r Gofrestr Risg.

17. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon CGA 29/22

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a roddodd adroddiad cynnydd i aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

17.2 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff pedwar, roedd CaBan Bangor wedi cyflwyno rhaglen TAR Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd i'r Bwrdd AGA ei hystyried. Cynhaliwyd ymweliad achredu rhwng 6 ac 8 Gorffennaf 2022 a byddai'r Bwrdd yn cyhoeddi ei benderfyniad ar yr achrediad o fewn 15 niwrnod o'r asesiad.

17.3 Gan gyfeirio at baragraff saith, adroddwyd bod y monitro interim wedi dechrau. Roedd dau ymweliad monitro, yn cwmpasu 4 rhaglen, wedi'u cynnal hyd yn hyn. Ystyriwyd bod tair rhaglen yn cydymffurfio (un Bartneriaeth) ac ystyriwyd nad oedd un rhaglen yn cydymffurfio â'r Meini prawf achredu. Roedd y rhaglen bellach yn destun proses 'testun pryder'. Roedd yn ofynnol i'r Bartneriaeth gyflwyno Cynllun Gwella i'r Bwrdd ei ystyried erbyn 8 Gorffennaf 2022. A hithau'n ymateb i ymholiad gan aelod, nododd Bethan Stacey y byddai'r Bwrdd a CGA yn cefnogi'r Bartneriaeth trwy gydol y broses.

17.4 I ymateb i ymholiad aelod ynghylch paragraff wyth, cadarnhaodd Bethan Stacey fod trafodaethau ag Estyn ynghylch cychwyn un broses yn symleiddio achredu, monitro ac arolygu yn parhau.

17.5 Yn ychwanegol at yr hyn a adroddwyd ym mharagraff 11, cadarnhaodd Bethan Stacey fod y grŵp llywio a grëwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i oruchwylio adnewyddu'r Meini prawf wedi cyfarfod ddwywaith a bod gwaith yn y maes hwn yn mynd rhagddo'n dda.

17.6 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 13, roedd CGA wedi hysbysebu am Aelodau Bwrdd i lenwi'r ddau le gwag a oedd wedi codi. Roedd y broses wedi cau erbyn hyn ac roedd y ceisiadau a ddaeth i law yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

17.7 Nid oedd gan aelodau gwestiynau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

18. Adroddiad cynnydd Ariannu Sefydlu CGA 30/22

18.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad a gwahoddodd aelodau i nodi'r cynnydd yng ngwaith y Cyngor o ran gweinyddu'r trefniadau ariannu, olrhain a chofnodi ar gyfer Sefydlu athrawon ysgol.

18.2 Cyfeiriwyd aelodau at baragraff pump ac fe'u gwahoddwyd i nodi'r cynnydd sylweddol yn nifer yr Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) sy'n ymgymryd â Sefydlu trwy gyfnod cyflogaeth hysbys a'r effaith ddilynol ar lefel y cyllid grant sy'n ofynnol i weinyddu'r rhaglen Sefydlu. Esboniodd fod hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r newidiadau a ddaeth i rym o Fedi 2021 ymlaen, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 15.

18.3 Fel yr adroddwyd ym mharagraff 18, roedd Llywodraeth Cymru wedi neilltuo grant o £5,200,000 ar gyfer 2022-23 ac wedi cydnabod hefyd mai galw oedd yn arwain y maes gwaith ac, felly, gellid ceisio cyllid ychwanegol pe bai angen.

18.4 Atgoffwyd y Cyngor fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen Sefydlu wedi lansio ym mis Chwefror 2022 a chyflwynwyd ymateb y Cyngor ar 8 Ebrill 2022. Nid oedd adroddiad yr ymgynghoriad yn crynhoi'r newidiadau a fyddai'n digwydd wedi'i gyhoeddi eto.

18.5 A hithau'n ymateb i ymholiad aelod ynghylch y newidiadau arfaethedig i Sefydlu a oedd yn debygol o ddigwydd ym mis Tachwedd 2022, cadarnhaodd Bethan Stacey mai'r gobaith oedd y byddai'r newidiadau ar waith cyn dechrau blwyddyn academaidd 2022-23, ond roedd yr agweddau cyfreithiol ynghylch newidiadau o'r fath yn debygol o fod wedi effeithio ar amserlen wreiddiol Llywodraeth Cymru.

18.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach.

19. Hyrwyddo gyrfaoedd ym maes addysg CGA 31/22

19.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a chyfeiriodd aelodau at baragraff tri. Adroddodd fod swyddogion yn gorffen llunio'r 'System Olrhain Ceisiadau' newydd, a ddatblygwyd o fewn gwefan Addysgwyr Cymru i olrhain llwybrau gyrfaol unigolion er mwyn llywio ymhellach y data recriwtio a chadw ar gyfer y gweithlu addysgu yng Nghymru. Rhagwelwyd y byddai'r system yn lansio cyn bod hir felly byddai'r taliadau terfynol ar gyfer y gwaith datblygu'n cael ei wneud wedi hynny.

19.2 Fel yr adroddwyd ym mharagraff chwech, yn dilyn proses Gwahoddiad i Dendro gan ddefnyddio GwerthwchiGymru, dyfarnwyd contract ar 19 Ebrill 2022 i Equal Education Partners a CREO Interactive i ddatblygu cynnwys, datblygu a rheoli ymgyrchoedd a rheoli'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd gwerth y contract tua £200,000 am ddwy flynedd ac roedd gwaith wedi dechrau.

19.3 Cadarnhaodd Bethan Stacey fod tri swyddog recriwtio a chymorth wedi'u recriwtio i'r tîm Hyrwyddo Gyrfaoedd, pob un ohonynt gyda chyfrifoldeb yn gyfrifol am faes recriwtio penodol â blaenoriaeth (recriwtio i STEM, y Gymraeg, a Phobl Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol). Roed dau swyddog eisoes yn eu swydd, gyda thrydydd yn dechrau ar 11 Gorffennaf 2022.

19.4 Nododd aelodau'r cynnydd cadarnhaol a wnaed o ran adeiladu defnydd a chyfeirio traffig at wefan Addysgwyr Cymru, ynghyd â'r gwasanaeth eiriolaeth y mae'r tîm yn ei gynnig. Nodwyd bod y cynnydd hwn yn arbennig o galonogol o ystyried yr heriau a wynebir o ran recriwtio a chadw staff yn y sector addysg.

19.5 Roedd y Cyngor yn fodlon nodi'r cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad.

20. Cynllun Gwasanaethau Cofrestreion CGA 32/22

20.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a gyflwynodd gyfres CGA o arweiniad, adnoddau a gwasanaethau proffesiynol, a'i gynlluniau ar gyfer datblygu. Gwahoddodd aelodau i ystyried y cynllun yn atodiad A, a rhoi sylwadau, adborth ac arweiniad er mwyn llywio'r gwaith ymhellach.

20.2 Nododd aelodau'r cynllun yn gadarnhaol ac roeddent yn arbennig o galonogol ynghylch datblygiad 'hyb' lles i gofrestreion ar wefan CGA er mwyn cyfeirio at adnoddau perthnasol.

20.3 Awgrymodd un aelod y gallai elfennau o'r cynllun gael eu cyflwyno trwy Vlog neu Bodlediad er mwyn cynnig gwahanol ffyrdd o ymgysylltu.

20.4 Nododd aelod arall safon uchel y digwyddiadau a gyflawnwyd gan CGA ac awgrymodd ddigwyddiadau dan arweiniad ymarferwyr, gyda'r nod o rannu ymarfer gorau ymhlith cymheiriaid.

20.5 Diolchodd swyddogion i aelodau am eu hawgrymiadau a nodont fod y cynllun yn ddatblygiad parhaus, felly roedd syniadau pellach yn cael eu croesawu a'u hannog.

21. Adolygiad o'r Cyngor a thrafodaeth am ddiwrnod hyfforddi blynyddol yr aelodau CGA 33/22

21.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a roddodd drosolwg o'r ymatebion a gasglwyd o broses adolygu blynyddol yr aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gydweithredu i gwblhau'r adolygiadau blynyddol. Gofynnwyd Aelodau i nodi'r sgorau a'r adborth cadarnhaol a ddeilliodd o'r adolygiad.

21.2 O ganlyniad i'r adborth a gafwyd o'r broses adolygu flwyddyn gynt, roedd diwrnod hyfforddi blynyddol yn well gan aelodau na sesiynau hyfforddi yn union cyn neu ar ôl cyfarfodydd y Cyngor. Cynhaliwyd yr ail ddiwrnod hyfforddi blynyddol ar 28 Ebrill 2022. Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i gyfleu eu hadborth o'r diwrnod.

21.3 Cytunodd aelodau mai dyma oedd yn well ganddynt ac roeddent o'r farn bod yr holl sesiynau hyfforddi'n cynnig gwerth i'w rolau llywodraethu. Roedd y briffiau i'r siaradwyr allanol o ddiddordeb arbennig a gofynnwyd bod sesiynau pellach gan reoleiddwyr eraill yn cael eu hystyried ar gyfer diwrnodau hyfforddi yn y dyfodol.

21.4 Awgrymodd un aelod gyflwyniadau gan ymarferwyr er mwyn i'r Cyngor ennill dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau y mae pob grŵp cofrestreion yn eu hwynebu. Nododd swyddogion yr awgrym hwn.

21.5 I ymateb i awgrym aelod bod cymheiriad yn cael ei neilltuo i gynorthwyo aelodau newydd y Cyngor, cytunodd y Cadeirydd i edrych eto ar y syniad ar ôl i broses Llywodraeth Cymru o benodi Cyngor newydd CGA, a fyddai'n dechrau ei dymor ar 1 Ebrill 2023, ddod i ben.

22-29. Eitemau er gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar:

- **Adolygiad chwarterol (CGA 34/22)**
- **Adolygiad o flwyddyn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu (CGA 35/22)**
- **Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (CGA 36/22)**
- **Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (CGA 37/22)**
- **Ysgrifenyddiaeth i'r IWPRB (CGA 38/22)**
- **Adolygiad ar safonau proffesiynol a phrosiectau tymor byr eraill Llywodraeth Cymru (CGA 39/22)**
- **Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol (CGA 40/22)**
- **Calendr dyddiadau cyfarfod yn y dyfodol (CGA 41/22)**

30. Unrhyw fater arall

30.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod i ben.